WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL 9–15 Mai 2010

Aeth Rosalind McLaughlin, cynrychiolydd Wythnos Cymorth Cristnogol, i Kenya gyda grŵp o drefnyddion a chasglyddion eraill. Gwelodd waith MNU, partner Cymorth Cristnogol, yn slym Kiambiu, ac aeth hefyd i Matopeni, lle nad yw MNU wedi dechrau gweithio eto. Dyma ei stori hi…

'Y peth cyntaf i ni weld wedi cyrraedd Matopeni oedd canlyniadau'r "toiledau sy'n hedfan". Does dim un toiled yma, felly mae pobl yn defnyddio bag ac yna ei daflu dros y wal. A does yna ddim tap swyddogol na dŵr glân chwaith. Mae pobl wedi llwyddo cyrraedd y pibellau dŵr sydd o dan y ddaear - ond mae'r dŵr yn wirioneddol frwnt ac yn cario teiffoid.

Catherine Kithulu yn dangos y llwybr bregus dros ddraeniau y gymuned

'Gwraig o'r enw Catherine Kithuku (chwith gwaelod) aeth â ni o gwmpas. Roedd yn anghredadwy. Cawsom ein harwain ar hyd llwybr sy'n rhedeg yn ymyl y tai. 'Styllod wedi torri yw'r llwybr ac mae system garthffosiaeth y gymuned yn rhedeg yn syth o dano.

'MAE'R CARTHION YN LLIFO I MEWN I'W CHARTREF PAN FYDD HI'N BWRW GLAW'

'Mae urddas y bobl yma a'u hymdeimlad o gymuned yn drawiadol iawn. Soniant amdanom ni, byth fi. Mae Catherine eisoes wedi ffurfio grŵp i drefnu bod sbwriel yn cael ei gasglu ac addysgu pobl am iechyd a materion eraill. Mae Catherine yn dweud ei bod hi'n breuddwydio am amgylchfyd sy'n addas i bobl fyw ynddo. Mae'n dweud ei bod hi'n credu mewn newid. Os daw MNU i weithio yn Matopeni rwy'n credu y bydd hi'n ei weld.

'Mewn cyferbyniad, mae pobl Kiambiu yn agosáu at fyw bywyd normal. Gyda chymorth MNU, maent wedi adeiladu pum bloc o doiledau a chawodydd ac maent yn cyflogi pobl o'r gymuned leol i'w glanhau a'u cynnal. Mae ganddynt ddŵr glân i'w yfed hefyd.

'Ond rydw i wedi gweld hefyd, os ydym yn barod i wneud rhywbeth, i wneud ymdrech a rhoi pobl eraill gyntaf, gallwn wella tipyn ar fywydau pobl eraill. A does dim hyd yn oed angen llawer o arian. Gall symiau cymharol fach wneud gwahaniaeth enfawr i lawer iawn o bobl.'

'GALL SYMIAU CYMHAROL FACH WNEUD GWAHANIAETH ENFAWR I LAWER IAWN O BOBL.'

Catherine Nyaata a Blessing, ei merch, yn casglu dŵr glân o'r bloc glanweithdra

Gall £16 brynu'r defnyddiau angenrheidiol i gloddio 5 medr o ddraeniau newydd yn Kenya, i atal carthion rhag llifo i mewn i'r strydoedd a'r tai, ac amddiffyn teuluoedd rhag afiechydon.

I wybod mwy am sut y gallwch chi fod yn rhan o'r newidiadau syfrdanol hyn, holwch eich cynrychiolydd Wythnos Cymorth Cristnogol neu ewch i **www.caweek.org**

Gyda'n gilydd fe allwn ddod â gwarth tlodi i ben.

TLODI BYD – RHAID EI DDILEU

Llun Rosalind McLaughlin: Cymorth Cristnogol/Antoinette Powell

Rhif elusen gofrestredig y DG 1105851 Rhif cwmni 517525
Mae enw a logo Cymorth Cristnogol yn nodau masnach Cymorth Cristnogol; mae PovertyOver yn nod masnach Cymorth Cristnogol.
© Cymorth Cristnogol Rhagfyr 2009